

ssia

Social Services Improvement Agency
Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwasanaethau Ailalluogi yng Nghymru Rhagfyr 2014



Cydnabyddiaeth

Hoffai AGGC ddiolch i'r Rhwydwaith Dysgu a Gwella Ailalluogi am eu cefnogaeth wrth ddatblygu'r adnodd hwn. Hoffem gydnabod hefyd gefnogaeth oddi wrth ein cydweithwyr o fewn Cynghrair Ail-alluogi Cymru.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gymeradwyo gan aelodau'r Rhwydwaith Ailalluogi, WLGA a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Crynodeb Gweithredol

Gallwn ni weld bod Gwasanaethau Ailalluogi yng Nghymru yn helpu i gefnogi miloedd o bobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol a chan amlaf i aros yn eu cartref eu hun. Mae'n amlwg bod gan yr ymyriadau byrdymor hyn effaith aruthrol ar lefel y gefnogaeth mae ei hangen ar yr unigolyn o ganlyniad gyda 71% o bobl sy'n derbyn Gwasanaethau Ailalluogi yn gofyn am naill ai lai o gefnogaeth neu ddim o gwbl. Serch hynny mae amrywiaethau ledled Cymru gan gynnwys y dulliau sy'n cael eu mabwysiadu, strwythurau staffio a chyd-drefniadau. Mae amrywiadau amlwg hefyd yn y data oddi wrth awdurdodau lleol a bwriad AGGC yw edrych yn fanylach ar yr amrywiad hwn mewn astudiaeth ar wahân.

Mae arian ar gyfer Gwasanaethau Ailalluogi yn amrywio rhwng cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol yn unig i gyd-drefniadau integredig â maes iechyd. Gwelir bod mentrau grant gan Lywodraeth Cymru fel y Gronfa Gofal Canolraddol (2014/15) wedi cefnogi'r gwasanaeth hwn mewn llawer o ardaloedd.

Un her wirioneddol ar gyfer Gwasanaethau Ailalluogi yng Nghymru yw cynnal yr ethos y tu hwnt i'r ymyriad ac yn arbennig i mewn i feysydd gwasanaeth eraill. Mae'n amlwg bod natur hanesyddol llawer o fodolau gwasanaeth sef rhoi gofal i unigolyn a 'gwneud pethau eu rhan' yn gwrthdaro ag ethos craidd Ailalluogi h.y. 'galluogi pobl i wneud pethau drostynt eu hunain'. Mae rôl glir o'n blaen i gefnogi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nod y gwasanaeth ac yn benodol i ddangos y manteision sydd gan yr ymagwedd hon ar lawer o feysydd gwasanaeth eraill. Mae gwaith parhaus AGGC, Rhwydwaith Dysgu a Gwella Ailalluogi a Chynghrair Ailalluogi Cymru yn chwarae rôl hollbwysig mewn cefnogi hybu'r agenda hwn.

1. Rhagymadrodd

Yn Rhagfyr 2013 drwy waith Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGC) gyda Rhwydwaith Dysgu a Gwella Ailalluogi a chydweithwyr o bob rhan o Gymru cafodd y Datganiad Sefyllfa Ailalluogi ei gynhyrchu. Dyma oedd y tro cyntaf yng Nghymru i ni gael dealltwriaeth genedlaethol o Wasanaethau Ailalluogi cyfredol a chyfle i amlygu manteision a heriau pennaf ymagwedd o'r fath. Seiliwyd yr adnodd, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, ar ddata o 2011/12.

Yn ystod cyfarfod Rhwydwaith Dysgu a Gwella Ailalluogi ym Mehefin 2014 nodwyd yr angen i ddiweddarau'r darlun cenedlaethol, er y dylai'r wybodaeth y gofynnir amdani fod yn llai manwl. Cytunwyd ar gyfres o gwestiynau¹ â'r Rhwydwaith Ailalluogi ac AGGC.

Seilir yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn ar drafodaethau â phob awdurdod lleol yn ystod Awst a Medi 2014 a drafododd bum maes allweddol:

1. Data am y gwasanaeth presennol
2. Gwybodaeth am fodolau gwasanaeth presennol a chynlluniau gwasanaeth at y dyfodol
3. Gwybodaeth "Pecyn Cymorth", gan gynnwys rhestr o ddogfennau/ mesurau
4. Amrediad o fentrau newydd
5. Ystyriaethau i'w trafod yn y dyfodol o bosib.

Mae'n bwysig nodi bod yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn yn deillio o gyfweiliadau trafodaeth strwythuredig ag arweinwyr Ailalluogi allweddol o fewn pob awdurdod lleol.

¹ Gweler Atodiad 2 am restr lawn o'r cwestiynau

Diffinio 'Ailalluogi'

Nid oes un diffiniad o 'Ailalluogi' sy'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru, er bod llawer o wasanaethau yn defnyddio naill ai diffiniad AGGC neu Gynghrair Ailalluogi Cymru. Yn y bôn, nod ail-alluogi yw helpu pobl i wneud pethau drostynt eu hunain ac uchafu eu gallu i fyw bywyd mor annibynnol â phosib. Mae a wnelo â chefnogi'r person cyfan. Y ddau ddiffiniad presennol yw:

"Gwasanaethau i bobl ag iechyd corfforol neu feddyliol gwael neu anabledd i'w helpu i fyw mor annibynnol â phosib drwy ddysgu neu ailddysgu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i fywyd bob dydd".

(AGGC - Rhwydwaith Dysgu a Gwella Ailalluogi)

"ymdrin â'u hanghenion corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn bersonol, lle bydd y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn pennu ei nodau ei hun ac yn cael ei gefnogi gan dîm Ailalluogi i'w cyflawni dros gyfnod cyfyngedig. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na beth maent yn methu ei wneud a'r nod yw lleihau gymaint â phosibl yr angen am gefnogaeth barhaus yn dilyn Ailalluogi"

(Cynghrair Ail-alluogi Cymru)

Nododd un awdurdod y dylid meddwl efallai am ddefnyddio "galluogi", yn hytrach nag "ailalluogi" er mwyn sicrhau bod yr amrediad ehangaf o anghenion o ran gwasanaeth a photensial defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys. Ni waeth pa ddiffiniad sy'n cael ei ddefnyddio, mae'n bwysig nodi mai'r un yw'r ystyr craidd.

2. Gwasanaethau Ailalluogi yng Nghymru

2.1 Strwythur Gwasanaethau Ailalluogi

Mae gwasanaethau Ailalluogi yng Nghymru yn amrywio o ran yr ymagwedd sy'n cael ei mabwysiadu (Derbyn, Wedi ei Dargedu neu gyfuniad) i'r trefniadau staff sy'n cael eu defnyddio, gan amrywio o wasanaethau awdurdod lleol ar eu pen eu hun i wasanaethau sydd wedi integreiddio â maes iechyd a phartneriaid eraill yn aml o fewn trefniadau Tîm Adnoddau Cymunedol.

Mae 'Derbyn' yn cyfeirio at ystyried pawb sy'n cael eu nodi at ddibenion Ailalluogi, cyn asesiad manwl. Seilir yr ymagwedd hon ar y rhagdybiaeth y gallai pawb sy'n dod i mewn i'r system am asesiad posibl elwa ar fynd drwy wasanaeth Ailalluogi. Gan hynny gallai'r canlyniad ar gyfer yr unigolyn hwnnw fod naill ai dim angen am unrhyw gefnogaeth barhaus neu fod angen lefel gefnogaeth is oherwydd yr ymyriad. Gall yr ymagwedd hon gael ei hystyried yn fwy amserol gan nad oes unrhyw oedi wrth aros am asesiad manwl ac mae'n sicrhau hefyd nad oes neb yn 'syrthio drwy'r rhwyd' gan golli ystyriaeth am Ailalluogi.

Dull 'Wedi Ei Dargedu' yw lle bydd ymarferwyr yn nodi cleientiaid penodol a fydd yn ôl eu hasesiad hwy yn elwa ar Ailalluogi. Mae'r ymagwedd hon yn dibynnu ar set sgiliau/profiad yr ymarferwr ac ymwybyddiaeth o botensial unigolion am wasanaeth o'r fath.

Fel mae'r tabl isod yn dangos, mae cyfran uwch o awdurdodau yn defnyddio dull Derbyn ac mae tri awdurdod yn cynnal cyfuniad o'r ddau ddull. Rydym yn ymwybodol bod newid cyffredinol yng Nghymru i'r gwasanaeth ddefnyddio dull Derbyn ac yn gyffredinol bod mwy o

Wasanaethau Ailalluogi yn cael eu darparu drwy drefniant integredig â gwasanaethau iechyd hefyd.

Dull yr awdurdod lleol	Dull derbyn	Dull targedu	Cyfuniad o'r ddau
Gwasanaeth ar ei ben ei hun	6	3	0
Gwasanaeth o fewn Tîm Adnoddau Cymunedol ²	1	0	1
Gwasanaeth integredig llawn o fewn Tîm Adnoddau Cymunedol	7	2	2

Wrth edrych ar y data o'r amrediad o ymagweddau a chyfansoddiad gwasanaeth Ailalluogi mae amrywiadau amlwg rhwng awdurdodau, tra bod dulliau o gofnodi data o'r fath yn amrywio hefyd. Mae'n bwysig sylwi hefyd bod rhai ymagweddau fel Prosiect Breuder Gwent yn methu â darparu data gan ei fod yn cael ei gasglu o fewn cronfa ddata Porth Iechyd ac un elfen ohoni'n unig yw Ailalluogi. Fel y gallwn weld mae sawl neges bwysig yn deillio o'r wybodaeth a gasglwyd (mae manylion llawn yn Atodiad 1):

- Yn gymesur mae mwy o awdurdodau (tua 74%) yn defnyddio dull Derbyn yn hytrach na'r model Targedu
- Yn gyffredinol mae cyfran uchel (72% ar gyfartaledd) yn cwblhau'r gwasanaeth
- Ar gyfartaledd mae angen llai o gefnogaeth neu ddim cefnogaeth o gwbl ar 71% o bobl wrth gwblhau gwasanaeth Ailalluogi
- Nid allai'r un awdurdod roi gwybodaeth am atgyfeiriadau gyda diagnosis o Dementia neu golli cof

² Mae hyn yn cyfeirio at wasanaeth nad yw'n cael ei reoli gan y Tîm Ailalluogi

Beth mae hyn ei ddweud wrthym ni'n glir yw bod Gwasanaethau Ailalluogi yn gallu ac yn llwyddo i gael effaith bositif ar fywydau pobl a bod angen llai o gefnogaeth neu ddim cefnogaeth bellach o gwbl ar y mwyafrif. Y cam nesaf yw edrych ar yr amrywiadau sydd yng Nghymru ac mae AGGC yn bwriadu comisiynu adolygiad o'r data i edrych ar hyn ymhellach.

2.2 Ffocws y gwasanaeth Ailalluogi

Mae'r mwyafrif o wasanaethau yn canolbwyntio ar agweddau i'r unigolyn sy'n fwy na'i angen gweithredol yn unig, er i un gwasanaeth ddweud mai dyma eu prif ffocws nhw. Yn ôl un arall, mae lefel y galw yn golygu nad oes modd gweithio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth tu allan i'w gartref.

Soniwyd yn aml am yr angen i gefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol, gan gyfeirio at ymdrin ag unigedd cymdeithasol a sicrhau llesiant.

2.3 Oriau gwasanaeth Ailalluogi

Nododd y mwyafrif o wasanaethau fod staff asesu yn gweithio oriau swyddfa 5 diwrnod yr wythnos, gyda gwasanaeth yn cael ei ddarparu er enghraifft gan Staff Cymorth Ailalluogi 365 diwrnod y flwyddyn. Mae nifer o wasanaethau yn bwriadu estyn oriau gwaith staff asesu ac mewn rhai achosion mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi cael ei defnyddio i gyflawni hyn.

2.4 Cyfansoddiad staff gwasanaeth Ailalluogi

Roedd y cyfansoddiad staff yn amrywio'n helaeth gyda rhai gwasanaethau awdurdod lleol ar eu pen eu hun yn cael eu darparu drwy fodel gofal cartref traddodiadol, er bod cymorth Therapi

Galwedigaethol ar ben hynny. Mae gan wasanaethau eraill amrediad o wasanaethau iechyd yn yr un lle ac mae rhai'n rhan o Dîm Adnoddau Cymunedol cwbl integredig, sy'n cynnwys Nyrs Seiciatrig Gymunedol neu Therapydd Galwedigaethol â sgiliau arbenigol ym maes iechyd meddwl.

2.5 Sut mae Gwasanaethau Ailalluogi yn cael eu darparu

Wrth edrych ar sut mae Gwasanaethau Ailalluogi yn cael eu darparu mae dwy ymagwedd yn y bôn: canolbwyntio ar ganlyniadau a chanolbwyntio ar amser a thasgau.

Dull mwy traddodiadol efallai yw'r un sy'n canolbwyntio ar amser a thasgau lle bydd yr unigolyn yn cael ei asesu ac amrediad o dasgau penodol yn cael eu nodi gyda therfyn amser penodedig yn cael ei osod. Er bod y dull hwn yn haws ei ddarparu o safbwynt trefniadaeth a rheoli gweithgareddau staff, mae heriau ganddo o hyd. Yr her sylfaenol yw y gall anghenion a chyflwr iechyd yr unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth amrywio o ddydd i ddydd ac felly mae'n bosibl na fydd gweithgaredd a benderfynwyd ymlaen llaw yn briodol bob tro. Hefyd o safbwynt staff gall rota a benderfynwyd ymlaen llaw gyfyngu ar eu gallu i ymateb yn hyblyg a chynnal y ffocws ar yr unigolyn.

Mae'r dull ar sail canlyniadau, fodd bynnag, yn edrych ar y pen draw i'r unigolyn, ei nod, gan roi cyfres o gamau yn eu lle i alluogi'r person i gyrraedd y pwynt hwnnw. Mae'r dull hwn yn cymryd i ystyriaeth amrywiadau gyda'r unigolyn wrth iddo wneud cynnydd. Ond mae heriau o ran sut i gomisiynu a darparu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Er bod y dull hwn yn llawer mwy hyblyg, mae'n gallu bod yn heriol o fewn y pwysau presennol ar feichiau achosion cynyddol, adnoddau cyfyngedig a lefelau staffio.

Gallwn ni weld yng Nghymru fod llawer o wasanaethau wedi datblygu cynlluniau gofal a chymorth ar sail canlyniadau, ond i rai gwasanaethau maent yn dal i gael eu darparu ar sail amser a thasgau neu gyfuniad o'r ddau.

Darparu gwasanaeth	Nifer yr awdurdodau lleol
Canlyniadau	9
Amser a/neu dasg	4
Y ddau	8

2.6 Ariannu a darparu Gwasanaethau Ailalluogi

At ei gilydd mae mwy o wasanaethau yng Nghymru yn cael eu hariannu drwy drefniant integredig gydag ychydig dros 40% yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol yn unig. Nododd dau awdurdod lleol hefyd, oherwydd natur fyrdymor y gwaith a'r ffocws ar helpu pobl i aros yn annibynnol gartref, fod arian ar gyfer eu Gwasanaethau Ailalluogi yn cael ei ddarparu gan Cefnogi Pobl hefyd.

Gellir gweld y bydd dull teilwra gwasanaeth Ailalluogi ar gyfer yr unigolyn yn amrywio'n fawr iawn yn ôl amgylchiadau ac anghenion y person hwnnw. Gall hyn olygu bod angen ymyrraeth oddi wrth ystod o staff iechyd a gofal cymdeithasol ac felly po ehangaf mae'r set siliau o fewn y tîm, mwyaf holistig ac amserol fydd cael gafael ar y gefnogaeth mae ei hangen. Mae trefniadau integredig yn cyflwyno model sy'n galluogi cefnogaeth o'r fath a chan fod natur manteision Ailalluogi yn berthnasol i awdurdodau lleol ac i'r gwasanaeth iechyd, mae cyd-ariannu yn sicrhau bod gwasanaeth o'r fath yn cael ei gyd-drefnu a'i ddarparu'n gynaliadwy.

	Darpariaeth awdurdod lleol	Darpariaeth integredig
S33	Dd/G	3
Cyd-ariannu gydag lechyd	1	9
Ariannu gan yr awdurdod lleol	9	Dd/G

2.7 Sicrhau ansawdd/cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth mewn gwasanaeth Ailalluogi

I'r mwyafrif o wasanaethau, cafodd ansawdd ei bennu gan adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth wrth i'r gwasanaeth ddod i ben, wedi ei ategu gan arolygon sefydliadol blynyddol.

Mewn ymateb i'r cwestiwn am gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, pwysleisiodd y mwyafrif gynllunio canlyniadau unigol yn gonglfaen y gwasanaeth. O ran cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr mewn cynllunio a darparu gwasanaeth strategol, dim ond tri awdurdod lleol a gyfeiriodd at hyn.

2.8 Camau dilynol ar ôl cwblhau gwasanaeth Ailalluogi ³

Wrth gwblhau gwasanaeth Ailalluogi mae'r ymagweddau at gamau dilynol gyda'r defnyddiwr gwasanaeth yn amrywio gyda rhyw 43% o awdurdodau heb gymryd unrhyw gamau dilynol. O'r sawl sydd yn

³ Ar sail 21 allan o 22 o atebion

gwneud, mae'r cyfnod yn amrywio rhwng pythefnos ar ôl cwblhau i hyd at flwyddyn mewn un achos. Mae goblygiadau amlwg o ran adnoddau wrth gynnal gweithgareddau dilynol ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r amrediad o ddulliau:

Math o gamau dilynol	Nifer yr awdurdodau lleol
Dim camau dilynol ar ôl trosglwyddo	9
Dim ond os yw'n derbyn cymorth hir-dymor/adolygiad safonol	5
Camau dilynol ar ôl pythefnos	1
Camau dilynol ar ôl 3 mis	4
Camau dilynol ar ôl 6 mis	1
Camau dilynol am flwyddyn	1

3. Mesurau Canlyniadau /Perfformiad a Mekanweithiau Adrodd

Mae amrediad o systemau sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru i fesur canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth a gwelir manylion y rhain yn y Blwch Offer sydd ar gael i aelodau'r Rhwydwaith Ailalluogi drwy wefan AGGC (www.ssiacymru.org.uk/reablement). Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r systemau hyn yn mesur newid ymarferol yn hytrach na "chanlyniadau". Naw gwasanaeth sy'n pennu canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth penodol h.y. ar sail nodau'r unigolyn, gyda'r perfformiad yn cael ei benderfynu yn ôl canlyniadau poblogaeth y gwasanaeth.

Mae llawer o wasanaethau yn coladu amrediad o ddata heblaw'r hyn a gafodd ei drafod yn yr holiadur, rhai mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru, a rhai sy'n benodol i'w Byrddau Iechyd hwy.

Adroddodd sawl gwasanaeth ddefnyddio systemau data cenedlaethol h.y. PARIS/DRAIG ac roedd rhai'n cadw systemau mewnol pwrpasol, yn ogystal â hynny, neu systemau ar eu pen eu hun.

Mae tri awdurdod lleol wedi cadw eu cronfeydd data eu hunain. Fel arfer mae gwybodaeth sy'n cael ei choladu yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i dimau rheoli gweithredol, i fforymau partneriaeth integredig ac o fewn yr adroddiadau perfformiad i Bwyllgorau Craffu/Byrddau Iechyd. O ran effaith adrodd ar Ailalluogi, roedd rhai gwasanaethau wedi derbyn cyllid ychwanegol i ehangu'r gwasanaeth a llwyddodd y data i ddarparu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau i'r Gronfa Gofal Canolraddol.

Soniodd sawl awdurdod am ddefnyddio'r data i ddangos i staff ac Aelodau effaith gweddnewid gwasanaeth a newid meddylfryd.

Yn achos y gwasanaethau hynny sydd o fewn Timau Adnoddau Cymunedol neu wedi eu halinio â nhw, sylwyd bod cryn gyfeirio at Ailalluogi fel ymyriad clir i gefnogi osgoi ysbyty neu ryddhau'n gynnar. Ond er bod profiad o Ailalluogi yn cael effaith o ran lleihau derbyn i'r ysbyty a gwella rhyddau, roedd yn anodd cael tystiolaeth o hyn gan fod llawer o fentrau eraill yn anelu at ganlyniadau tebyg ar waith ar yr un pryd.

4. Offer/Technoleg Cynorthwyol Cymunedol

Ni roddwyd gwybod am unrhyw anawsterau mewn pethynas ag Offer a Thechnoleg Cynorthwyol Cymunedol ac mewn sawl achos, arweinydd Ailalluogi oedd rheolwr y gwasanaethau hyn hefyd.

Yn achos tri awdurdod lleol, nodwyd bod gwasanaethau Technoleg Cynorthwyol wedi eu lleoli o fewn yr adran Tai ac adroddodd un leihad diweddar yn amrediad yr offer sydd ar gael oherwydd cwtogi'r gyllideb.

5. Cyfranogiad y 3^{ydd} Sector

Mae gan y mwyafrif o wasanaethau Ailalluogi gysylltiadau agos â'r 3^{ydd} sector ac mae gan ddeg ohonynt frocer 3^{ydd} sector naill ai o fewn y tîm neu ar gael yn rhwydd drwy'r Pwynt Mynediad Sengl. Mae'n ddiddorol bod un awdurdod lleol o'r farn y gall rôl gynyddol y 3^{ydd} sector o fewn y Pwynt Mynediad Sengl a'r ffocws ar lesiant/ ymyrraeth gynnar arwain at ddirwyn i ben yr agwedd hon ar gymorth sy'n cael ei darparu gan Ailalluogi ac y bydd y gwasanaeth yn dychwelyd i ffocws mwy gweithredol.

6. Llwybr Iechyd Meddwl

Adroddwyd bod y mwyafrif o wasanaethau yn rhoi cymorth i bobl sy'n dioddef colli cof neu ddementia.

Roedd yn amlwg mai ychydig iawn o anawsterau oedd gan Wasanaethau Ailalluogi a oedd yn rhan annatod o Dimau Adnoddau Cymunedol wrth gael gafael ar gymorth iechyd meddwl. Ond, yn enwedig i wasanaethau awdurdod lleol sy'n sefyll ar eu pen eu hun, roedd llawer o sylwadau am anawsterau ymgysylltu â gwasanaethau Iechyd Meddwl a bod ymateb araf i atgyfeiriadau.

7. Datganiad o Fwriad

Un o argymhellion y Datganiad Sefyllfa am Wasanaethau Ailalluogi yng Nghymru oedd “Dylai strategaethau Ailalluogi rhanbarthol gael eu hadnewyddu a’u datblygu ar sail paertneriaeth wirioneddol ar draws llywodraeth leol, y GIG a sectorau eraill er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol ac effeithlon. Dylid manteisio ar gyfleoed i ffurfioli’r trefniadau hynny drwy’r Datganiadau o Fwriad sydd ar y gweill rhwng Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â gwasanaethau integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth”.

Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn gallu dweud a oedd yr Argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith.

8. Y Gronfa Gofal Canolraddol

Mae pob un ond tri o’r Gwasanaethau Ailalluogi wedi elwa ar y Gronfa Gofal Canolraddol. I’r rhai sydd wedi derbyn arian grant dyma manylion ei ddefnydd:

- Staff ychwanegol i ehangu nifer y bobl sy’n cael eu cefnogi neu i estyn oriau gweithio yn arbennig ar gyfer staff therapi ac asesu
- Gwelyau camu-i-fyny camu-i-lawr ychwanegol
- Gwelyau Ailalluogi o fewn Gofal Ychwanegol
- Sefydlu “tŷ clyfar” i ddangos buddion Technoleg Cynorthwyol
- Gwella staff craidd y Pwynt Mynediad Sengl
- Gwella ymgysylltiad â’r 3^{ydd} sector
- Cynlluniau peilot cymorth dementia
- Tîm cymorth mewnol ni fynd ati i ymwneud yn gynnar â defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd yn yr ysbyty

Nododd sawl ymatebydd y bu’n anodd recriwtio i swyddi ac felly ni fyddai’r amserlen ar gyfer gwerthuso yn rhoi darlun dibynadwy i wneud

cais am arian parhaus ar ei sail, naill ai oddi wrth Lywodraeth Cymru neu ddeiliaid cronfeydd lleol.

Pryder pellach a nodwyd oedd bod staff craidd Ailalluogi yn cael eu secondio i fentrau Cronfa Gofal Canolraddol newydd a'i bod yn anodd llenwi eu lleoedd hwy, unwaith eto oherwydd natur tymor byr y Gronfa.

9. Cynnal ethos Ailalluogi

Yn ôl y mwyafrif o ymatebwyr mae'n allweddol gwella'r maes hwn.

Ymhlith y camau a gymerir i sicrhau cynnal ethos Ailalluogi roedd:

- Ymwneud yn uniongyrchol â'r darparwr newydd adeg trosglwyddo
- Y Tîm Ailalluogi yn cynnal yr adolygiad cyntaf ar ôl trosglwyddiad
- Hyfforddi darparwyr hirdymor yn ethos Ailalluogi
- Ysgrifennu cynllun gofal a chymorth gyda ffocws ar Ailalluogi
- Y Tîm Ailalluogi yn comisiynu gwaith hirdymor yn uniongyrchol
- Peilota dull ar sail Canlyniadau gyda darparwyr hirdymor

Y rhwystr pennaf i gynnal yr ethos yw sut mae cefnogaeth hirdymor yn cael ei chomisiynu, gyda'r mwyafrif o wasanaethau yn defnyddio contract ar sail tasg ac amser nad yw'n caniatáu am hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaeth.

10. Casgliad a Chamau yn y Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi tystiolaeth o lwyddiant a lledaeniad parhaus Gwasanaethau Ailalluogi ledled Cymru. Nid yw effaith yr amrywiaeth yn strwythurau modelau a ffynonellau arian gwasanaethau

yn amlwg ar yr olwg gyntaf yn y data a gasglwyd ac mae hyn yn derbyn sylw pellach drwy adolygiad academiaidd. Mae'r adroddiad yn amlygu meysydd lle mae angen gwelliant cyson e.e. casglu data, cynnwys Dementia a cholli cof, ynghyd â Chamau Dilynol; cynnal yr ethos; ymdrin â'r tensiynau rhwng darparu gwasanaeth ar sail Amser a Thasg neu ar sail Ffocws ar Ganlyniadau. Ar hyn o bryd mae AGGC yn cefnogi dau brosiect sy'n canolbwyntio ar y ffocws mae ei angen ar ddementia ac Ailalluogi yn y ddau fodel gwasanaeth a hyfforddiant a datblygiad staff. Bydd manylion pellach y gwaith hwn ar gael ar wefan AGGC wrth iddo esblygu.

Trwy drafodaethau ag awdurdodau lleol ledled Cymru mae'n amlwg bod yna gynlluniau i ddatblygu a gwella gwasanaethau Ailalluogi ymhellach a dyma rai o'r meysydd sy'n derbyn sylw:

- Symud i fodel Derbyn
- Gwella comisiynu cefnogaeth hirdymor
- Integreiddio ag iechyd
- Gwasanaethau mewnol
- Cymorth ar gyfer pobl â dementia
- Technoleg well er mwyn i staff fonitro a chofnodi cyflawni nodau'n uniongyrchol
- Gwelyau camu-i-fyny camu-i-lawr
- Datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth
- Gwella ymgysylltiad â'r 3^{ydd} sector
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn cynllunio strategol

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i gefnogi datblygu a gwella'r gwasanaeth hanfodol hwn yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein yn www.ssiacymru.org.uk/reablement.

Atodiad 1 – Data o Wasanaethau Ailalluogi

(Ffigur isaf ac uchaf a gofnodwyd)	Targeddu	Derbyn	Y ddau	Methu darparu gwybodaeth
Nifer sy'n cael eu hatgyfeirio am wasanaeth Ailalluogi	372-1397	218-1960	479-1067	4
% yr atgyfeiriadau cyffredinol i Wasanaethau Oedolion	6.41%- 8.41%	9.60%-46%	?-60%	15
% yr atgyfeiriadau sy'n cwblhau'r gwasanaeth	79.86%- 96.8% Av=88.33%	46%-98% Av=76.5%	48.5%-52% Av=50.25%	6
Ar ôl cwblhau, % heb angen gwasanaeth yn y dyfodol	42.9%- 69.4% Av=63.61%	16%-73% Av =51.12%	52%-63% Av = 57.5%	6
Ar ôl cwblhau, % sydd angen lefel is o gefnogaeth	0.35%- 26.3% Av=14.24%	0.65%-32% Av=11.26%	13%-16% Av = 14.5%	9
Ar ôl cwblhau, % sydd angen cefnogaeth bellach	5.01%- 14.53% Av=11.08%	2%-48.9% Av = 13.13%	0%-24%% Av = 12%	9
Ar ôl cefnogaeth, % heb unrhyw newid i'w gwasanaeth ()		4.9%-23.5% Av=14.23%		
% yr atgyfeiriadau gyda diagnosis o Ddementia neu golli cof				All

Atodiad 2 – Cwestiynau'r Arolwg

A) Gwybodaeth Berfformiad, gan gyfeirio'n benodol at 2013/14

- 1) Oeddech chi'n gweithredu model derbyn neu dargedu mewn perthynas ag atgyfeiriadau am Ailalluogi?
- 2) Faint o bobl gafodd eu cyfeirio am Ailalluogi?
- 3) Pa % o'r atgyfeiriadau cyffredinol ar Wasanaethau Oedolion ydy hyn?
- 4) Pa % o'r bobl a gyfeiriwyd am Ailalluogi a gwblhaoedd eu rhaglen Ailalluogi?
- 5) Ar ôl ei chwblhau, pa % o'r bobl a gyfeiriwyd am Ailalluogi:-
 - i) oedd heb angen unrhyw gefnogaeth bellach
 - ii) oedd angen lefel is o gefnogaeth
 - iii) oedd angen cefnogaeth bellach
- 6) Pa % o'r bobl a gyfeiriwyd am Ailalluogi oedd wedi cael diagnosis ffurfiol o Dementia?
- 7) Pa % o'r bobl a gyfeiriwyd am Ailalluogi oedd yn dioddef colli cof?
- 8) Ydych chi'n cymryd camau dilynol i bobl sydd wedi derbyn gwasanaeth Ailalluogi?
Os felly—am ba gyfnodau a pha ddata sydd gennych chi?
- 9) Oes gennych chi Fesurau Canlyniadau mewn perthynas ag Ailalluogi naill ai i'r unigolyn a/neu'r gwasanaeth?
Os oes—beth yw'r rhain a pha ddata allwch chi ei ddarparu?
- 10) Sut mae ansawdd yn cael ei sicrhau neu ei fesur ar gyfer eich gwasanaeth?
- 11) Ydych chi'n casglu unrhyw Wybodaeth Berfformiad arall mewn perthynas ag Ailalluogi?
- 12) Sut mae'r data a gwybodaeth yn cael eu casglu ac i bwy mae'n cael eu hadrodd?
- 13) Beth fu effaith adrodd gwybodaeth?

B) Mewn perthynas â 2014/15

- 1) Pa ddiffiniad o Ailalluogi ydych chi'n ei ddefnyddio?
- 2) Ydy'r gwasanaeth Ailalluogi yn canolbwyntio ar unrhyw beth ac eithrio gallu gorfforol gweithredol?
- 3) Ydy'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu ar sail amser a thasg neu ar gyflawni canlyniadau defnyddwyr y gwasanaeth?

- 4) Sut mae'r Gwasanaeth Ailalluogi yn cael ei ariannu? Pa ganran sy'n cael ei thalu gan lechyd o'i chymharu â'ch awdurdod lleol?
- 5) Yn ystod pa amserau ac adegau yn ystod yr wythnos ydy'r gwasanaeth ar gael?
- 6) Pwy sy'n darparu'r Gwasanaeth Ailalluogi a beth yw'r cyfansoddiad staff?
- 7) Beth yw'r llwybr i gael gafael ar gefnogaeth i bobl sy'n cael eu nodi gan staff Ailalluogi fel pobl sydd angen cymorth iechyd meddwl?
- 8) Sut ydych chi wedi sicrhau bod ethos Ailalluogi yn cael ei gynnal i bobl sydd angen cefnogaeth tymor hwy?
- 9) Pa gysylltiadau sydd gennych â gwasanaethau Offer/Technoleg Cynorthwyol Cymunedol?
- 10) Sut mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gallu cyfrannu at gynllunio a darparu'r gwasanaeth?
- 11) Sut mae'r 3^{ydd} sector yn ymwneud â'r Gwasanaeth Ailalluogi?
- 12) Oes cyfeiriad at Ailalluogi yn y Daganiad o Fwriad ac os felly beth sy'n cael ei ddweud?
- 13) Sut mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi cael ei defnyddio ar gyfer Gwasanaethau Ailalluogi ac ydy'r gwelliannau hyn yn gynaliadwy heb gyllid parhaus?

C) Cynlluniau at y Dyfodol—cynlluniedig a dyheadol

- i gynnwys trafod dibynyddiaeth